# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE FRAgS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Bryan Owen, Shaun James Redmond, Dylan Rees a J A Roberts |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. DOGFEN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Thrawsnewid mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio – Gwasanaethau Corfforaethol fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r blaenoriaethau dros y deuddeg mis nesaf sydd â chysylltiad â'r dyheadau a'r amcanion sydd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017-2022. Nododd fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn dangos bod yr Awdurdod yn

barod i ymafael â'r heriau wrth iddo foderneiddio ei wasanaethau tra'n cadw golwg bob amser ar egwyddorion cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Dywedodd fod pob un o'r amcanion yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn bwysig a dygodd sylw at enghreifftiau o'r blaenoriaethau a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cynigiodd fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn cael ei chymeradwyo.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r targedau y mae'r Cyngor am eu cyflawni yn ystod 2019/20 ynghyd â'r weledigaeth i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer etholwyr Ynys Môn. Fe eiliodd hi'r cynnig i gymeradwyo'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20.

Dygodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd sylw at y cynnydd a wnaed gyda phrosiectau economaidd a phrosiectau arloesol ar yr Ynys.

Codwyd y prif faterion isod gan Aelodau'r Cyngor:-

- Ni fedr Awdurdodau Lleol gynnal y toriadau blynyddol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliadau ariannol; mae trigolion lleol yn gorfod wynebu codiadau parhaus yn y Dreth Gyngor. Roedd Arweinydd y Cyngor yn cytuno bod y toriadau parhau i setliadau awdurdodau lleol yn annerbyniol ond mae'r awdurdod hwn wedi gallu fforddio darparu gwasanaethau i'r trigolion lleol er gwaethaf yr heriau ariannol;
- Roedd yr Aelodau'n croesawu'r cymorth ariannol gwerth £495,000 gan yr NDA i helpu i gefnogi Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn er mwyn creu cyfleoedd economaidd newydd ar yr Ynys. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn croesawu cyllid yr NDA a dywedodd fod gweithio partneriaethol rhwng y sefydliadau partner yn hanfodol er mwyn denu cyllid ar gyfer prosiectau economaidd;
- Yr angen am adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng Gwynedd a Môn gan fod y ffiniau datblygu o gwmpas pentrefi yn cyfyngu gormod ac at hynny, nid yw'n hyrwyddo datblygiad economaidd ar yr Ynys. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac aelod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd y gellir adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd os oes angen ond mae'r cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn; cyflwynir yr adroddiad monitro i'r Cyngor ym mis Hydref;
- Mynegwyd pryderon am y dyledion y mae'r Cyngor hwn wedi eu dileu. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod y rhan fwyaf o'r dyledion sy'n cael eu dileu yn ddyledion hanesyddol ac y byddai mynd ar ôl rhai o'r dyledion hyn wedi bod yn afrealistig o gostus.

**Ar bleidlais, cafodd y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 fel y cafodd ei chyflwyno, ei chymeradwyo.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**